

DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#4
gyda Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch:
• wy amrwd • wy wedi'i ferwi'n galed
Synnwch eich ffrindiau â'r tric clyfar hwn.
Yn gyntaf, troellwch yr wy sydd wedi'i ferwi'n galed.
Stopiwch ef a gadewch fynd iddo'n syth.
Gwyliwch beth sy'n digwydd.
Nawr, troellwch yr wy amrwd.
Stopiwch ef a gadewch fynd iddo'n syth.
Mae'r wy yn dechrau troelli!
Nid yw'r melynwy a'r gwynwy wedi'u cysylltu â'r plisgyn, felly maent yn dal i symud pan fyddwch yn stopio'r wy amrwd.
?
Gofynnwch i ffrind gymysgu'r wyau, a defnyddiwch y tric i wahaniaethu rhyngddynt.
S
Vic Le Billon
geiriau allweddol: wy, troelli